

TEN PIECES

GET CREATIVE WITH
CLASSICAL MUSIC



BBC
MUSIC

bbc.co.uk/tenpieces

Mae Deg Darn yn gynllun newydd, cyffrous, ar gyfer ysgolion cynradd, dan arweiniad BBC Learning a Grwpiau Perfformio'r BBC, a fydd yn canolbwyntio ar gerddoriaeth glasurol a chreadigrwydd.

Pryd?

Cynhelir Deg Darn dros gyfnod blwyddyn ysgol. Bydd yn dechrau yn nhymor yr Hydref gydag wythnos o ddigwyddiadau arbennig ar gyfer ysgolion ledled y wlad, a bydd digwyddiad mawr i ddathlu'n dod â'r prosiect i ben yn ystod haf 2015.

Pam?

Nod Deg Darn yw cyflwyno byd cerddoriaeth glasurol i blant - a'u hysbrydoli i ddatblygu eu hymatebion creadigol eu hunain i'r darnau drwy gerddoriaeth, dawns neu gelf ddigidol. Bydd y repertoire yn cynnwys ystod eang o gerddoriaeth, o gerddoriaeth faróc i gerddoriaeth gyfoes.

Pwy?

Bydd pump o Gerddorfeydd y BBC a Chantorion y BBC yn cymryd rhan, yn ogystal ag enwogion fel Barney Harwood o Blue Peter. Bydd y cynllun yn cael sylw ar draws y BBC, o wasanaethau Plant y BBC i Radio 3.

Mae Partneriaid sy'n Rhanddeiliaid yn cynnwys Cyngor Celfyddydau Lloegr, Cyngor Celfyddydau Cymru a Chyngor Celfyddydau Gogledd Iwerddon, Creative Scotland, Music Mark, Youth Music, ABO ac Into Film.

Hefyd, bydd dwsinau o Hyrwyddwyr Deg Darn yn cefnogi cynlluniau lleol, gan gynnwys Gwasanaethau Cerddoriaeth a sefydliadau cerddoriaeth, dawns a chelfyddydol arbenigol.



Y Cynllun Peilot

Yn sgil cynllun peilot y prosiect hwn (a oedd yn cynnwys 17 o ysgolion yn Llundain a Manceinion Fwyaf), gwelwyd effaith ddramatig o ran diddordeb plant mewn cerddoriaeth glasurol a'u mwynhad o hynny. Cyn cymryd rhan, nid oedd 70% o blant oed cynradd erioed wedi bod mewn cyngerdd cerddoriaeth glasurol. Ar ôl y prosiect, roedd 78% yn awyddus i fynd, ac roedd cynnydd o 100% yn nifer y plant a oedd 'wir yn hoffi' cerddoriaeth glasurol.



Ewch i bbc.co.uk/tenpieces i weld ffilm am ymatebion y plant i'r prosiect peilot.

Yr hyn a ddywedodd yr athrawon a'r plant:

"Roedd y plant wrth eu bodd gyda'r profiad."

Ysgol Gynradd Bradley Green, Tameside

"Gwych - cafodd y plant eu cyflwyno i gerddoriaeth glasurol, mewn ffordd a oedd yn gwneud y gerddoriaeth yn fodern, yn gredadwy ac yn berthnasol iddyn nhw."

Ysgol Gynradd Stanhope, Llundain

"Roeddwn i'n ei hoffi am eich bod yn gallu defnyddio'ch dychymyg."

Disgybl, 8 oed

Cam 1:

Ysbrydoliaeth
Hydref 2014

Bydd Deg Darn yn cael ei lansio ar 6ed Hydref 2014, gyda'r ffilm newydd drawiadol sy'n cyflwyno deg darn o gerddoriaeth glasurol yn cael ei dangos AM DDIM i ysgolion mewn sinemâu ledled y wlad am wythnos. Bydd y ffilm sinematig hefyd ar gael ar DVD i ysgolion ar gais (tra bo digon o stoc ar gael).

Cam 2:

Ymchwilio a chreadigrwydd
Hydref 2014 – Mawrth 2015

Gofynnir i blant ymateb yn greadigol i'r gerddoriaeth drwy greu eu cyfansoddiad, dawnys neu gelf ddigidol/animeiddiad eu hunain. Bydd BBC Learning yn darparu toreh o adnoddau ar-lein i gefnogi gwaith ymchwil y plant i'r repertoire - a'u helpu i ddatblygu eu hymatebion creadigol. Gall ysgolion gysylltu â Hyrwyddwyr Deg Darn yn eu hardal i ddatblygu'r gwaith y maent yn ei wneud yn yr ystafell ddosbarth.

Bydd Cerddorfeydd y BBC a Chantorion y BBC hefyd yn cynnal gweithdai cyffrous – bydd manylion y rhain ar gael ar wefan Deg Darn.

Cam 3:

Cyflwyno a pherfformio
Ebrill 2015 - Gorffennaf 2015

Yn ystod tymor yr haf, bydd Cerddorfeydd y BBC a Chantorion y BBC yn cynnal cyngherddau rhyngweithiol i ddathlu hyd a lled y wlad.

Bydd ein Hyrwyddwyr Deg Darn yn cynnal nifer fwy o ddigwyddiadau o dan thema Deg Darn yn genedlaethol. Ewch i'n gwefan i gael y newyddion diweddaraf.

Bydd y prosiect yn dod i ben gyda dathliad mawr yn ystod haf 2015, a fydd yn arddangos gwaith y plant o'r cenhedloedd a'r rhanbarthau, yn ogystal â'r deg darn gwreiddiol. Bydd clipiau o ymatebion creadigol plant o bob rhan o'r DU i'w gweld ar-lein.



Rhesymau dros gymryd rhan:

- Bydd y prosiect yn helpu ysgolion i gyflwyno agweddau allweddol o'r cwricwlwm addysgol, gan gynnwys dysgu am waith cyfansoddwyr o fri, cyfansoddi a pherfformio.
- Cefnogir gan gyrff addysgu, cerddoriaeth a chefyddydol.
- Cyfle i fod yn rhan o gynllun cenedlaethol ysbrydoledig gan y BBC.
- Adnoddau addysgol am ddim gan y BBC.
- Cyfle i weithio mewn partneriaeth â sefydliadau celfyddydol a cherddoriaeth leol, fel Gwasanaethau Cerddoriaeth, i wella'r gwaith sy'n cael ei wneud yn yr ystafell ddosbarth.
- Drwy gymryd rhan, bydd plant yn datblygu eu creadigrwydd, eu hyder a'u sgiliau cydweithredu.

Bydd adnoddau'r BBC yn cynnwys:

- Dangos ffilm sinematig am ddim sy'n cynnwys y 10 darn wedi'u cyflwyno gan enwogion ac wedi'u perfformio gan un o Gerddorfeydd y BBC.
- DVD o'r ffilm Deg Darn am ddim i ysgolion, ar gais (tra bo digon o stoc ar gael).
- Ffilmiau ysbrydoledig 'sut mae' a chefnidir am y repertoire.
- Nodiadau i athrawon.
- Trefniannau o'r repertoire i weddu i wahanol alluoedd.

Y Camau Nesaf: Sut gall ysgolion gymryd rhan?

Beth allwch chi ei wneud nawr:

Trefnwch le ar gyfer eich ysgol yn y sinemâu dethol a fydd yn dangos Deg Darn yn ystod wythnos 6ed Hydref. (Dylai pob archeb gael ei gwneud ar wefan Deg Darn. Mae llefydd yn brin – felly gwnewch hyn cyn gynted â phosib).

Cofrestrwch ar gyfer y prosiect drwy fynd i wefan Deg Darn (bbc.co.uk/tenpieces) a thanysgrifiwch i'r cylchlythyr. Byddwch yn derbyn y newyddion diweddaraf yn rheolaidd yn ogystal â dolenni at adnoddau perthnasol wrth iddynt gael eu hychwanegu at y safle.

Edrychwch ar y rhestr o Hyrwyddwyr ar y wefan i weld a oes unrhyw sefydliadau celfyddydol a cherddoriaeth yn eich ardal a all eich helpu i ddatblygu'r prosiect yn eich ysgol.

Cynlluniwch weithgareddau yn eich ysgol sy'n ymwneud â Deg Darn yn ystod tymor yr Hydref, ar y cyd â'ch Gwasanaeth Cerddoriaeth Lleol. Archebwch DVD Deg Darn drwy anfon e-bost atom i tenpieces@bbc.co.uk, gan roi 'DVD' fel pennawd. (Ar gael o Hydref 2014, tra bo digon o stoc ar gael).

Tymor yr Hydref / Gwanwyn

Hydref 2014 - Mawrth 2015

- Ewch i weld ffilm Deg Darn yr ydych chi wedi archebu eich lle ar ei chyfer.
- Byddwch yn derbyn copi o DVD Deg Darn yr ydych chi wedi'i archebu.
- Edrychwch drwy'r adnoddau ar wefan Deg Darn.
- Gweithiwch gyda Hyrwyddwyr Deg Darn lleol i helpu plant i ddatblygu eu hymatebion creadigol.
- Anfonwch glipliau byr o ddeunydd creadigol plant at y BBC (erbyn 27ain Mawrth 2015) er mwyn eu cynnwys ar y wefan. Bydd gwybodaeth am hyd, fformat ac unrhyw ganiatâd sydd ei angen ar gael ar wefan Deg Darn.

Tymor yr haf

Ebrill - Gorffennaf 2015

- Cynhaliwch eich cyngerdd dathlu Deg Darn yn eich ysgol neu eich cymuned – a chymerwch ran yn y rheini a gynhelir gan Hyrwyddwyr Deg Darn, Cerddorfeydd y BBC a Chantorion y BBC. Mae'r manylion i'w gweld ar y wefan.
- Chwiliwch am adran arbennig o'r wefan Deg Darn lle bydd clipiau o ymatebion creadigol y plant ledled y wlad yn cael eu llwytho i fyny.

Deg Darn, a hyrwyddwyd gan:



I gael rhagor o wybodaeth am brosiect Deg Darn ac i ddod o hyd i'ch Hyrwyddwr Deg Darn lleol, ewch i bbc.co.uk/tenpieces a thanysgrifiwch i gylchlythyr Deg Darn heddiw!